

Pris: 50c

Papur Pawb

Mai 2017 Rhif 429



Llywydd Cymdeithas
Gwartheg Duon Cymreig
2017-2018 – tud 6

tud 3
Pobl a Phethe

tud 4, 5
Ysgol Tal-y-bont

tud 11
Sioe Ffasiwn

tud 12
Pencampwyr

Bwrw Pleidlais

Ydy etholiadau yn eich cyffroi chi? Neu ydy'r wythnosau diwethaf yma a'r wythnosau nesaf o gecru gwleidyddol yn arwain at yr Etholiad Cyffredinol ddechrau mis Mehefin, yn teimlo'n hir iawn, iawn yn barod. Beth bynnag eich barn, mae'r cyfan i gyd yn arwydd o gymdeithas wâr wrth gwrs, gyda democratiaeth ar waith. Mae cael y rhyddid i fwrw pleidlais a datgan cefnogaeth at unigolyn neu Blaid benodol, yn fraint y mae nifer ohonom yn ei gymryd yn ganiataol ac yn hynod ddihyd ohoni.

Mae wedi bod yn ddeuddeg mis o ganlyniadau rhyfeddol ac annisgwyl mewn etholiadau ar draws y byd. Pwy ar ddechrau'r ymgyrch fyddai wir wedi rhagweld ethol Donald Trump yn Arlywydd yr Unol Daleithiau, ac yn ddiweddar iawn wedi darogan buddugoliaeth i Emmanuel Macron yn etholiadau'r Arlywyddiaeth yn Ffrainc. Er y canlyniadau hyn i gyd, cadw at yr hyn sy'n gyfarwydd iddynt a'r 'status quo' fu hanes trigolion ardal Papur Pawb yn yr etholiadau ar ddydd Iau, 4 Mai.

Yn Etholiad Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Ward Ceulanamaesmawr ail etholwyd y cynghorydd Plaid Cymru presennol Ellen ap Gwynn, yn Gynghorydd yn dilyn amddiffyn ei sedd yn llwyddiannus yn erbyn yr ymgeisydd annibynnol John Dilwyn Lewis.

A hithau wedi cynrychioli ei hardal ers 1999, mae Ellen yn edrych ymlaen yn fawr at yr her o barhau i wasanaethu ei chymuned gan ddweud:

'Rwyf yn hynod ddiolchgar i etholwyr ward Ceulanamaesmawr am ddangos eu cefnogaeth i mi trwy fy ethol unwaith eto i'w cynrychioli ar Gyngor Sir Ceredigion ac ar Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr. Fe wnaif fy ngorau drostyn nhw bob amser.

Dros y bum mlynedd nesaf, bydd yn rhaid gweithio'n galed i gadw gwasanaethau i fynd yn wyneb y toriadau llym rydym yn eu dioddef oherwydd polisiâu ariannol caled y Llywodraeth yn Llundain.'

Bu Ellen hefyd yn ymgymryd â her arweinyddiaeth Cyngor Sir Ceredigion dros y pum mlynedd diwethaf ac wrth i Bapur Pawb fynd i'r wasg nid yw'n glir hyd yma beth fydd y drefn arweinyddol am y cyfnod nesaf. Ond beth bynnag a ddaw i ran Ellen dymunwn bob llwyddiant iddi gyda'i gwaith.



Am y tro cyntaf ers degawdau ddechrau'r mis roedd gan drigolion cymuned Ceulanamaesmawr y cyfle i fwrw pleidlais wrth ethol eu cynghorwyr cymuned. Profiad etholiadol newydd sbon i'r etholwyr a'r ymgeiswyr fel ei gilydd. Roedd 12 ymgeisydd yn ymgiprys am 11 sedd ac ail etholwyd y Cynghorwyr presennol i gyd, sef pum yn cynrychioli Plaid Cymru; Ellen ap Gwynn, Rhian Haf Evans, Bleddyn Owen Huws, Enoc Wyn Jenkins a Megan Mai a chwech arall sef Emyr Wyn Davies, David Llywelyn Evans, Nia Evans, Nest Jenkins, Susan Elizabeth Jones-Hughes a David Morris Jones.

Mae'n bwysig bod y Cyngor Cymuned yn gynrychioladwy ac yn atebol i'w hetholwyr ac felly mae'n siwr fod cynnal etholiad yn beth

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais (01654) 781324
Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gervyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)



Y Blew yn perfformio yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont, yn 1967

Llythyr

Annwyl gyfaill,
Rwy'n cynhyrchu rhaglen
arbennig i BBC Radio Cymru
am y grŵp pop Y Blew, a
berfformiodd dipyn o gwmpas
Cymru yn ystod 1967.

Rwy'n awyddus i holi rhai a
welodd y grŵp, a chael eu

hymateb iddynt.

A fyddai modd i chi gynnwys
y darn yma yn eich papur, os
gwelwch yn dda?

Rwy' wedi atodi lluniau
o'r grŵp - yn arbennig y noson
yn Nhal-y-bont, hanner can'
mlynedd yn ôl!

Diolch o galon,
Eurof Williams



Canlyniad yr holl bleidleisio !

Dyddiadur

MAI

- 14 **Bethel** 10 a 5.30 Y Gymanfa
Ganu
Nasareth Y Gymanfa Ganu
Rehoboth Y Gymanfa Ganu
Taith 3k Llysiau Llesol
(Rhaid archebu lle) 11-12.30
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 15 **Merched y Wawr Tal-y-bont**
a'r Cylch 'Brethyn Cartref'
- 16 **Cwrs Creu Mandala**
Troellog (Rhaid archebu lle)
7-9yh Cletwr, Tre'r-ddôl
- 19 **Sesiwn Nos Wener** Noson
yng Nghwmni'r Beirdd 8 y.h.
Y Llew Gwyn
- 20 **Cyfarfod misol i ddysgwyr**
11-12 Cletwr, Tre'r-ddôl
- 21 **Bethel** 2 Gwasanaeth Teulu
Sul Cymorth Cristnogol
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 5 Carwyn Arthur
(R)
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyl Weddi
- 23 **Cymdeithas Treftadaeth**
Llangynfelyn 7.30
'Nant-y-moch cyn y boddi'
(Erwyd Howells)
Cwrs Creu Mandala
Troellog (Rhaid archebu lle)
7-9yh Cletwr, Tre'r-ddôl
- 26 **Amser Stori** 2.30-3.15yp
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 28 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Uno ym Methel
- 30 **Pypedau Vagabondi**
3.15-4.30 Cletwr, Tre'r-ddôl
Cwrs Creu Mandala
Troellog (Rhaid archebu lle)
7-9yh Cletwr, Tre'r-ddôl

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Rhian a Catrin, gyda
Ceri yn dylunio. Golygyddion
mis Mehefin fydd Robat ac Enid
(robat@yloffa.com).

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn
newyddion fydd dydd Gwener
2 Mehefin 2017, a bydd y papur
ar werth ar 9 Mehefin.

Os am gynnwys
manyion am
weithgareddau eich
mudiad neu'ch sefydliad
yn nyddiadur y mis,
dylech anfon y manylion
llawn at Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.
com 01970 832478 o leiaf
ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o Papur
Pawb.

MEHEFIN

- 4 **Bethel** 2 Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Richard Lewis
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaidd
- 6 **Sefydliad y Merched**
Taliesin Heledd Davies,
Telynores
Cwrs Creu Mandala
Troellog (Rhaid archebu lle)
7-9yh Cletwr, Tre'r-ddôl
- 9 **Amser Stori** 2.30-3.15yp
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 10 **'Straeon Gwyrddlas'**
7.30-9.15 Cletwr, Tre'r-ddôl
- 11 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth 5 Rhidian Griffiths
(C)
Rehoboth 10
Taith 3k Llysiau Llesol
(Rhaid archebu lle)
11-12.30 Cletwr, Tre'r-ddôl
- 14 **Taith 3k Troellwr Fin Nos**
(Rhaid archebu lle)
8.30-9.30 Cletwr, Tre'r-ddôl
- 16 **Sesiwn Nos Wener** Cowbois
Rhos Botwnnog 8 y.h.
yBlac
- 17 **Cyfarfod misol i ddysgwyr**
11-12 Cletwr, Tre'r-ddôl
- 18 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Nasareth 2 Eifion Roberts
(R)
Rehoboth 10 Terry Edwards
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyl Weddi
- 23 **Amser Stori** 2.30-3.15yp
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 24 **Hwyl gyda Chrefftau**
(Gwell archebu lle) 3-5
Cletwr, Tre'r-ddôl
- 25 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 2 Eifion Roberts
(R)
- 27 **Cymdeithas Treftadaeth**
Llangynfelyn 7.30 'Bwyd y
Carchar' (Richard Ireland)
- 30 **Caws, Gwin a Chân** gyda
Chôr y Gen 7 y.h. Eglwys
Sant Pedr, Elerch



CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL MORLAN

6.00, nos Fawrth, 9 Mai
Croeso cynnes i bawb.

BRECWAST MAWR
8.00-10.00, bore Mawrth, 16 Mai
Rhan o weithgareddau Wythnos
Cymorth Cristnogol. Croeso i bawb.

DEWCH AT EICH GILYDD
Dydd Sadwrn, 17 Mehefin
Digwyddiad cymunedol i nodi
blwyddyn ers marwolaeth Jo Cox, AS.
Cyfle i ddangos a dathlu bod mwy yn
ein huno nag sydd yn ein rhannu.
Manylion pellach i ddilyn.

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

Cydymdeimlad

Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth sydyn iawn Dr John Corton, Penrow, Bont-goch. Roedd John yn wyddonydd uchel iawn ei barch ar staff IBERS, ac yn ŵr hynaws. Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i weddw Brigid a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd dau wasanaeth pwysig yn yr Eglwys yn ystod y mis. Ar Sul y Pasg dathlwyd y Cymun Bendigaid gyda'r Parch Lyn Dafis yn gweinyddu a 14 yn bresennol. Rhannwyd wyau Pasg i'r plant a'r oedolion oedd yn bresennol. Darllenwyd y llithoedd gan Lisa Davies a Richard Huws.

Ar y 5ed Sul, braf oedd croesawu aelodau o eglwys Penrhyn-coch a Chapel Bangor i ymuno â ni yn yr Hwylol Weddi dan ofal ein ficer, Y Parchg Andrew Loat. Roedd 20 yn bresennol. Darllenwyd y llithoedd gan Emyr Davies a Richard Huws.

Elisabeth James oedd yr organyddes yn y ddau wasanaeth.

Edrychwn ymlaen at noson arall o Gaws, Gwin a Chân ar 30 Mehefin. Bydd Côr y Gen (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) ac artistiaid lleol yn ein diddanu, a gwahoddwyd Mrs Barbara Jenkins i weithredu fel Llywydd.

Ffermio

Roedd hi'n dda gweld gwaith arloesol Innovis ar fferm Mynydd Gorddu yn cael sylw teilwng ar raglen Ffermio (S4C) yn ddiweddar.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus iawn i Eifion Jones, Culgant y Coed, Taliesin, a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar y 17 Mai.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Debbie Nash, Madryn, Maes-y-felin, Tal-y-bont, ar enedigaeth bachgen bach, Benjamin, ar 28 Ebrill.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Cara a Sam ar farwolaeth eu mab bychan ac â'u teuluoedd ym Maes-y-deri a Thaliesin yn eu galar.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Gwen a Peter Manley, Swyn-y-Leri, Tal-y-bont ar ddathlu eu pen-blwydd priodas aur yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Enid James, Henllan gynt, a fu farw yn y Trallwm yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Pen-blwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Betty Roberts, 99 Maes-y-deri, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Gwelir hi yn y llun gyda'r brawd Dewi.



Cipio'r Gadair

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Huws, Henllan, Tal-y-bont ar gipio'r Gadair yn Eisteddfod Ysgol Penweddig yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Ann Humphreys, Llysteg, Taliesin, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ar 12 Mai ond sy'n dal i edrych yn hynod ifanc!

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Brenda Jeeves, Llys-y-coed, Taliesin, a Sheila Haynes, Tal-y-bont, sydd yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Hefyd, i Mai Leeding, Glannant, sydd wedi cael llawdriniaeth lwyddiannus ar ei phen-glin yn Ysbyty Gobowen.

Diolch o galon

Dymunai Mrs Avril Bond, Brodawl, Taliesin, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar ac am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlwyd sawl pen-blwydd arbennig yn yr ardal yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Mona Rowlands, Bryn Hyfryd, Tal-y-bont ac hefyd Huw Lewis, Maesgwyn, Tre'rddôl, ar eu penblwyddi arbennig. Dymuniadau gorau i Bryn Dennis, Maes-y-Felin, Tal-y-bont a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw yn ddiweddar. Pen-blwydd hapus i ti.

Diolch

Dymuna Betty Roberts, 99 Maes-y-deri ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a blodau dderbyniodd ar ei phen-bwydd yn 90. Diolch yn fawr i chi gyd.

Cadw'r Fflam yn Fyw

Mae Cwmni Theatr Maldwyn ag Ysgol Theatr Maldwyn yn teithio ar hyn o bryd gyda'r sioe 'Cadw'r Fflam yn Fyw' sy'n cynnwys ystod eang o ganeuon allan o sioeau'r cwmni ar hyd y blynyddoedd o waith Derec Williams, Penri Roberts a Linda Gittins. Bu perfformiad yn y Neuadd Fawr ar nos Sadwrn, 6 Mai a braf oedd gweld rhai o drigolion yr ardal yn canu gydag arddeliad ar y llwyfan sef Anwen Howard, Tal-y-bont, Rhian Nemes, Tre'r-ddôl a Barrie Jones, Taliesin.

Cydymdeimlo

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Joel Dibble, Maes-y-deri, Tal-y-bont. Ein cydymdeimlad dwysaf ai fam Janine Dibble a'r teulu yn eu profedigaeth.

Ysgol Tal-y-bont



Celf amgylcheddol



Cyfnod sylfaen yn Allt y Crib



Ysgol Eco – Diwrnod Garddio



Pêl-droed y Bechgyn



Pêl-droed y Merched



Clwb Sgiliau Seiclo

Ysgol Tal-y-bont

Ysgol Iach – Pencampwriaeth Pêl-droed yr Urdd

Bu mis Ebrill yn fis prysur eto o ran chwaraeon. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm merched a'r tîm bechgyn am gystadlu mor frwd yn erbyn ysgolion eraill rhanbarth Ceredigion eleni eto. Hoffwn ddiolch yn fawr i Wyn Benjamin am ofalu am dîm y bechgyn ac i Bernard Morris am ofalu am dîm y merched.

Rygbi Tag

Rydym yn ffodus o fod yn parhau i gael sesiynau rygbi tag gyda Ifan Tomos ar brynhawn Gwener. Mae pob dosbarth wedi cael blas yn ystod y flwyddyn ac rydym yn ddiolchgar iawn am ei arbenigedd.

Clwb Seiclo

Rydym yn hynod gyffrous fod ein Clwb Sgiliau Seiclo wedi dechrau i ddisgylbion Cyfnod Allweddol 2. Bydd y Clwb yn cwrdd am 4 wythnos er mwyn datblygu sgiliau seiclo gan gynnwys cyd-bwysedd a rheolaeth. Roedd hi'n dipyn o gamp i fod yn enillydd y ras araf! Diolch yn fawr iawn i'r hyfforddwr Malcom Dines.

Ysgol Eco – Diwrnod Garddio

Ar ddechrau mis Ebrill, bu pob dosbarth wrthi'n brysur iawn yn clirio, chwynnu a pharatoi'r ardd ar gyfer plannu llysiau maes o law. Diolch yn fawr iawn i Polly Williams a Fiona Moran am y gwaith paratoi o flaen llaw ac ar y diwrnod.

Allt y Crib

Thema'r Cyfnod Sylfaen y tymor yma yw Cuddfannau ac mae Bl 1 a 2 wedi bod yn brysur yn dysgu yn y goedwig. Maent wedi bod yn dysgu enwau'r coed, yn arsylwi a chasglu dail crin, yn didoli ac yn creu celf amgylcheddol.

Staff Newydd

Hoffwn groesawu Beth Lewis atom ni fel cynorthwy-ydd dysgu yn y Dosbarth Derbyn gan ddymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd a gobeithio y bydd hi'n hapus iawn yma yn ein cwmni. Rydym yn falch iawn hefyd fod Vicky Joseph wedi dechrau yn ei rôl newydd fel cynorthwy-ydd dysgu yn y Dosbarth Derbyn.

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance**

Torri Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com


01970 832760

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553



O'r chwith i'r dde: Owain Jones (Swyddog Datblygu), Ann MacGarry (Is-gadeirydd Biosffer Dyfi), Andy Rowland ac Iolo ap Gwynn (Cadeirydd), yn dal baner Biosffer Dyfi gyda chyfeiriad y wefan newydd.

Lawnsio gwefan newydd

Mae gan Biosffer Dyfi wefan gyffrous newydd: www.biosfferdyfi.cymru. Mae'r wefan gwbl ddwyieithog yn adnodd ar gyfer yr ardal leol gyfan; gan gynnwys pobl leol, ymwelwyr ac ymchwilwyr.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am lefydd i aros a mannau i ymweld â nhw, cerdded, bywyd gwyllt a chwaraeon antur; gan gynnwys clipiau fideo a mapiau y gellir eu lawrlwytho. Mae hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth am ardaloedd Biosffer a statws UNESCO, yn ogystal â phrosiectau ddoe a heddiw. Cadeirydd y Biosffer Dyfi yw Iolo ap Gwynn, Tal-y-bont.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth



Daeth y tymor i ben am eleni ar brynhawn Mawrth, 11 Ebrill, pan aeth yr aelodau i fwynhau te prynhawn yng Nghrefftau Pennau, Rhydpennau. Ar ôl mwynhau'r te blasus cafodd pawb gyfle i weld y crefftau amrywiol sydd ar werth yn y siop.

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Gosod Pibau dan y Ffordd, Tal-y-bont

Adroddwyd bod Adran Dechnegol, Cyngor Sir Ceredigion, wedi gorffen ar y gwaith o osod pibau o dan y ffordd rhwng y Blac a phen y rhiw ger Gwynfa/Brynhafyd. Gobeithir y bydd hyn yn lledfuar broblem o ddwr yn codi trwy'r gratin, a dŵr yn rhedeg i lawr y ffordd. Cytunwyd i ysgrifennu at Brian Thomas, Cyngor Sir Ceredigion, yn diolch iddo am gwblhau'r gwaith yma.

Swyddfa Bost, Tal-y-bont

Adroddodd y Clerc iddi dderbyn ymateb wrth Y Post Brenhinol, ond hynny'r union un neges a dderbyniodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn pan ysgrifennodd hi atynt. Esboniodd nad oedd newyddion cadarnhaol, gan iddynt nodi y byddent yn hapus dderbyn ceisiadau wrth unrhyw un fyddai â diddordeb rhedeg y swyddfa bost. Nodwyd y byddent yn rhoi gwybod i ni os oedd unrhyw ddiweddiariad ynglŷn â'r sefyllfa. Cytunwyd i ail-ysgrifennu at y Swyddfa Bost gan ofyn a fyddai modd trefnu bod 'post symudol' yn dod i'r pentref dros dro hyd y gellir adfer y gwasanaeth.

Cae Bach – Cynnal a Chadw

Adroddodd y Clerc bod Adran Grantiau Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion, wedi cytuno i ariannu 50% o gostau gosod llawr newydd ar ddau ddarn o offer yn y Cae Bach, Tal-y-bont. Adroddwyd y bydd hi'n cymryd tua 6 wythnos i greu'r llawr, ac yna mi fydd y cwmni llorïo yn dod i'w osod. Gobeithir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn diwedd mis Mai.

At hyn, cytunwyd i edrych ar yr opsiynau o adnewyddu/ychwanegu offer at y Cae Bach, gan ystyried y grantiau posib, yn ystod y misoedd nesaf.

Tarmac dros Gratiau, A487 ger Rhiwlan

Adroddodd y Cyngorydd Nia Evans bod rhywrai wedi bod yn agor gratiau ar yr A487, ger Rhiwlan, Tal-y-bont. Mae'n debyg fod yr asiantaeth priffyrdd wedi tarmacio dros bedwar gratin pan fuon nhw'n ail-wynebu'r ffordd. Nododd fod llai o ddŵr ar y ffordd o'i herwydd, a gobeithiai y bydd hyn yn lleihau faint o ddŵr sy'n casglu ar waelod y rhiw.

Baw Cŵn

Adroddodd y Cyngorydd Rhian Evans fod cwyno wedi bod ynghylch baw cŵn yn casglu o amgylch Dôl Pistyll. Cyngor yr Adran Iechyd Amgylcheddol, Cyngor Sir Ceredigion, yw i unigolion gysylltu gyda hwy i adrodd unrhyw broblemau. Nododd yr adran bod adroddiadau yn gryfach gyda lluniau o'r unigolion yn troseddau ac enw'r troseddwr. Ei manylion cyswllt yw: 01545 572105 / envhealth@ceredigion.gov.uk.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Anrhydedd i Gwilym Jenkins

Llongyfarchiadau mawr i Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont ar gael ei ethol yn Llywydd Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig am y flwyddyn 2017-18 yn y cyfarfod blyneddol a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Ngwesty'r Plough, Llandeilo. Mae'r ardal hon yn enwog am ei gwartheg duon ac mae Gwilym yn olyn sawl bridwr lleol arall a gafodd yr anrhydedd.



Pobl arloesol yn y maes fel y diweddar Benett Jenkins, Cerrigaranau a'i dad Mr J M Jenkins, Robert Williams, Penywern a'i dad yntau y diweddar Mr E H Williams. Dau arall cyfagos sydd hefyd wedi derbyn yr anrhydedd wrth gwrs ydy'r diweddar John Pryse Rees, Brysgaga, Bow Street a Trefor Jones, Cwmcae, Bow Street. Mae'n amlwg fod y Gymdeithas yn ddyledus iawn i ardal Tal-y-bont a'r cyffiniau.

Dywed Gwilym ei fod yn edrych ymlaen yn fawr at gyflawni ei ddyletswyddau a'r cyfle i gydnabod ei ddyledersonol ef a'i deulu i'r 'fuch ddu Gymreig'. Yn ystod y flwyddyn bydd dydd agored yn cael ei gynnal gan y teulu dan nawdd y Gymdeithas a fydd yn gyfle arbennig i weld y gwartheg duon yn eu cynefin naturiol.

parhad o tud 1

Bwrw Pleidlais

iachus mewn gwirionedd. Yn ddios, mae'r Cyngorwyr i gyd yn edrych ymlaen at barhau i weithio'n ddylf i sicrhau'r gorau i'r ardal. Er bod grym y cyngor yn gyfyngedig i raddau helaeth, mewn cyfnod gynyddol ansicr maen nhw'n gweld fod ganddynt rôl allweddol wrth geisio sicrhau ac ymgyrchu dros barhad gwasanaethau allweddol i'r gymuned. Enghraifft o hyn ydy eu hymdrechion diweddar i bwysu ar y Swyddfa Bost i anfon gwasanaeth post symudol i'r ardal, a hynny tra'n gwasgu arnynt i ail agor swyddfa llawn amser mor fuan ag sy'n bosibl.

Dymunwn bob llwyddiant iddynt gyda'r gwaith, gan annog pawb i ddwyn unrhyw bryderon i'w sylw, fel yn hanes cyngorau cymuned Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed hefyd, er mwyn sicrhau fod ein cymunedau yn cael eu cynrychioli'n deg ac yn effeithiol. Felly, er bod hyd yn oed sôn am etholiad arall ar y gorwel yn codi pwys ar rai ohonoch, cofiwch fod cael y cyfle i frwr pleidlais a gosod eich croes ar y papur pleidleisio yna yn bwysig ac yn gwneud gwahaniaeth.

Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion



Gwilym Jenkins, Llywydd Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion yn cyflwyno dau gwpan. Un i Huw Davies, Llety Ifan Hen, am yr hwrdd gyda'r cynnydd gorau yn yr arbrawf dros y gaeaf, a'r llall i Dei Nutting, Tŷ Hen Henllys am yr hwrdd gorau.




Bwrlwm y Ddrama

Bu'r wythnosau diwethaf yn gyfnod o ymarfer prysur i'r ddau gwmni drama lleol, sef Licris Olsorts a'r Doli Micstiyrs wrth iddynt baratoi i berfformio dwy ddrama newydd ar gyfer cystadlu yn y gwyliu drama. Mae'r ddau gwmni yn ddyledus iawn i arweiniad y cynhyrchydd, Sion Pennant, Bont-goch.

Mentrodd criw ifanc y Doli Micstiyrs gyda Heledd Davies, Gwenllian ac Osian King, Glain Llwyd Davies, Oisín Lludd, Ifan Clubb, Elain Tanat

ac Elen Llewelyn, i berfformio 'Tu Hwnt i Bob Gofid' am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ddrama Corwen ar nos Wener 5 Mai. Braf iawn ydy gweld unrhyw gwmni yn perfformio deunydd newydd a mwy braf fyth pan fo'r gwaith hwnnw yn waith talent lleol. Gwaith gwreiddiol gan Sion Pennant ydy 'Tu Hwnt i Bob Gofid' sy'n mynd i'r afael â phwnc cyfoes ac amserol iechyd meddwl. Mae'n ddrama heriol sy'n amlygu fel y gall effeithio ar bawb, ym mhob haen o gymdeithas gan gynnwys pobl ifanc. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar gipio'r wobwr gyntaf am y cwmni drama gorau dan 18 oed ac i Heledd Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont ar ennill gwobr yr actor gorau dan 18 oed. Dymunwn yn dda iddynt ar y cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhenybont.

Perfformio'r ddrama 'Ar Maglau wedi Torri' o waith y dramodydd Emyr Edwards fu Licris Olsorts gyda dwy yn y cast y tro hwn sef Sharon King, Elgar, Bow Street a Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont. Dyma ddrama llawn tensiwn gan feistr y ddeialog. Bu'r cwmni yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ddiwedd mis Ebrill ac yn Ngŵyl Corwen a llongyfarchiadau mawr iddynt am gipio'r 2il wobwr ar y ddau achlysur. Cipiodd Sharon y tlws am yr actor gorau yng Ngroeslon a chafodd y ddwy actores ganmoliaeth uchel am eu perfformiadau yng Nghorwen gan y beiriniad Alun Elidyr. Bwriedir perfformio'r ddwy ddrama yn lleol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.



Y Gair Olaf



Gobeithio bydd pawb yn fy esgusodi i am ysgrifennu'n weddol bersonol...

Fe wnaeth Dai a fi ymddeol ym mis Mehefin, 2010. Mae'r blynyddoedd ers hynny wedi dod â chymysgedd amrywiol o brofiadau a digwyddiadau. Fe gollais i Mam yn 2010, yn ystod ein gwyliau cyntaf ar ôl gorffen gweithio; yn 2012 fe ddaeth y llifogydd i'r pentre ym mis Mehefin, ges i lawdriniaeth ar fy nghalon ym mis Medi, a collais i fy Nhad ym mis Tachwedd.

Roedd etholiad 2010 yn ddigon o siom, ond y tro cyntaf i fi wylo am ganlyniad etholiad oedd 2015. Y refferendwm oedd y tro nesa. Ar ôl etholiad Donald Trump yn yr Unol Daleithiau fe ddaeth anghrednedd ac ofn... Bydd etholiad newydd cyn bo hir, a does dim gobaith 'da fi y bydd pethau'n gwella.

A nawr mae siop pentre Tal-y-bont wedi cau...

Ond ar y llaw arall... Mae Dai a finau wedi cael gwyliau gwyh yn sgio, ac yn teithio yn ein cartref modur. Mae ein nai (Ben) a'n nith (Jo) wedi priodi, a rydyn ni'n hen ewythr a hen fodryb i Arianna Ffion ers llynedd. Rydyn ni wedi dathlu 40 mlynedd o briodas. Mae Cian yn dal i weithio a theithio, ac mae cariad hyfryd iawn 'da fe. Mewn llawer o ffyrdd, rydyn ni'n lwcus iawn, a rydyn ni'n dal i hoffi'n bywyd yma ar ôl 42 mlynedd o fyw yn Nhal-y-bont.

Tu allan yn yr ardd, mae'r cennin pedr yn dod i ben, ond mae'r clychau'r gog yn blodeuo. Er gwledyddiaeth a dadl, mae'r gwanwyn yn dod!

Su James

Llythyr

Annwyl bawb,

Rwy'n eich e-bostio i rannu newyddion cyffrous ynglŷn â'r cynllun ariannu cymunedol sydd wedi cael ei lansio gan fy swyddfa. Mae'r rhaglen ariannu sy'n cynnig £75,000 i gymunedau ar draws Dyfed-Powys wedi cael ei lansio ac rwy'n gwahodd ceisiadau gan grwpiau a sefydliadau yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, a fyddai'n defnyddio'r arian i helpu i wella bywydau pobl. Mae'r Cronfa Cymunedol y Comisiynydd yn cynnig grantiau hyd at £5000 i elusennau, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol fel eu bod nhw'n medru datblygu syniadau sydd ag effaith gadarnhaol ar yr ardaloedd maen nhw'n gweithio ynddynt. Mae'n rhaid i brosiectau adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddau 2017-21 Dyfed-Powys mewn rhyw ffordd, sef: Cadw'n cymunedau'n ddiogel, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, diogelu'n cymunedau rhag bygythiadau difrifol ac ymgysylltu â chymunedau. Mae'r arian ar gael i'r sector cyhoeddus, y sector breifat, sefydliadau cymunedol neu wirfoddol, ac rydyn ni'n annog sefydliadau i gydweithio. Cewch wneud cais am hyd at £5000. Ni fydd ceisiadau am symiau mwy na hyn yn cael eu derbyn. Mae'r rhaglen ar agor o 13 Ebrill 2017, a'r **dyddiad cau yw 2 Mehefin 2017**. Os yr ydych chi'n adnabod rhywun sy'n gymwys ar gyfer y cynllun ariannu uchod, rwy'n eich annog i rannu'r neges hon ac i sicrhau ei bod yn llenwi ffurflen gais. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch ein swyddfa ar [01267 226 440](tel:01267226440) a gofynnwch i siarad gyda Jessica Williams neu e-bostiwch ni: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Yn gywir

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau / Police & Crime Commissioner's Office
Rhifffon / Phone: [01267 226 440](tel:01267226440)
E bost / E mail: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Maes y Gwaed

Mae'r drydedd erthygl yn y gyfres achlysurol hon yn adrodd hanes un o'r morwyr a fu'n gwasanaethu ar longau masnach yn ystod y Rhyfel Mawr a'i farwolaeth gan mlynedd yn ôl i'r mis diwethaf.

Un o arfau mwyaf grymus yr Almaenwyr yn ystod y rhyfel oedd y llong danfor - yr U-boat. Byddai fflyd ohonyn nhw'n llechu yn y moroedd o gwmpas Prydain, gan gynnwys Bae Ceredigion. Suddwyd rhai llongau mawr fel y *Lusitania* ond eu prif darged oedd llongau masnach. Gan nad oedd Prydain yn cynhyrchu digon o fwyd i gynnal ei phoblogaeth, rhaid oedd mewnfario grawn a bwydydd o'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill. Roedd yr Almaenwyr yn benderfynol o amharu ar hyn a suddwyd cyfanswm 4,786 o longau masnach Prydain yn ystod y rhyfel. Roedd rhai llongau masnach hefyd yn cludo nwyddau a mwynau, a mwyn haearn o Algeria oedd ar fwrdd yr *SS Argyll* pan suddwyd hi gan mlynedd yn ôl yn union i fis Ebrill eleni.

Ymhlith y morwyr a foddwyd oedd peiriannydd y llong, David ('Dei') Jones, aelod o deulu morwrol a ddaeth i fyw i Ael-y-bryn (Maesgwyn erbyn heddiw), Tal-y-bont, yn 1914. Roedd ei dad, Richard D Jones, yn gapten llong a bu ef a'i wraig, Mary, yn byw yn Stryd y Bont ac ar y Buarth, Aberystwyth, cyn symud i Dal-y-bont. Yn ystod y rhyfel, ymunodd brawd Dei, Emrys, â Chwmni'r Signalwyr Cymreig, y Peirianwyr Brenhinol, ond dilynodd Dei draddodiad morwrol y teulu.

Ganed Dei yn Aberystwyth yn 1889, gan fynychu Ysgol y Sir yno ac Ysgol Ganolradd Tywyn. Yn 17 oed ymunodd yn brentis â chwmni peiriannyddol T. Williams a'i fab, Aberystwyth, lle y dysgodd am dyrbinau ag offer peiriannyddol. Wedi tair blynedd gyda'r cwmni hwnnw, daeth yn beiriannydd ar longau masnach, gan hwylio i'r Unol Daleithiau, Siapan ac Awstralia. Treuliodd Dei gyfnod o seibiant yn Nhal-y-bont ddechrau 1917 ac adroddwyd mewn papur lleol ei fod,

wrth adael am y môr unwaith eto, yn arddangos '...the true characteristics and patriotism of a British seaman.'

Ar 13 Ebrill 1917, roedd llong Dei, yr *SS Argyll*, yn y môr i'r gorllewin o Ynysoedd Syllan (Scilly) ar ei thaith i Middlesborough, pan ymosodwyd arni gan long danfor. Mae gwefan hynod fanwl ar gael sy'n nodi holl achosion o ymosodiadau gan longau tanfor yr Almaen yn ystod y Rhyfel Mawr (www.uboat.net). Ceir ynddi gyfeiriad at y llong danfor U84, dan arweiniad ei chapten, Kapitänleutnant Walter Roehr, yn suddo'r *SS Argyll*. O'r criw o 34, achubwyd 11 ohonyn nhw ond boddwyd David Jones. Rhwng 1916 ac 1918 suddodd yr U84 gyfanswm o 31 o longau a difrodwyd saith, ond ganol Ionawr 1918 fe'i suddwyd hithau yn y môr ger Penmarch, Llydaw.

Ddiwedd Ebrill 1917, cynhaliwyd gwasanaeth coffa i David Jones yng nghapel Bethel, Tal-y-bont. Cofnodir ei enw ar gofeb Tower Hill, Llundain, lle y rhestrir oddeutu 12,000 o forwyr llongau masnach lle nad oes bedd iddynt ond y môr. Mae ei enw hefyd ar y gofeb i'r meirw yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, ac mae enw ei frawd, Emrys, a oroesodd y rhyfel, ar y gofeb i'r rhai a fu'n gwasanaethu yn ystod y rhyfel.

GJ



David ('Dei') Jones

Ethiopia hen a newydd

Affricanwyr yw pob un ohonom, dim ond i ni olrhain ein gwreiddiau yn ôl yn ddigon pell.

Ac mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod hanes dyn yn dechrau mewn dwy ardal benodol yn Ethiopia.

A'r gred yw bod y stori yn dechrau o ddeutu 160,000 o flynyddoedd yn ôl, os nad yng nghynt.

Wrth i wyddonwyr gasglu mwy o dystiolaeth a datblygu technegau sydd yn eu galluogi i ddyddio'r darganfyddiadau hynny'n fanwl, erys dau gwestiwn diddorol sydd yn rhan o'n hanes ni yma yng Nghymru.

Pryd y gwnaeth dyn adael Affrica a dechrau poblogi ardaloedd eraill o'r byd, a beth a'i gyrrodd oddi yno?

Dyma'r ddau gwestiwn gafodd sylw yr Athro Henry Lamb o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth yn sesiwn ddiweddaraf Proff yn y Pyb ar y 15fed o Fawrth yn y Llew Gwyn.

Ers rhai blynedd bellach mae'r Athro Lamb, sydd yn byw yn Nhal-y-bont, wedi bod yn astudio un o lynnoedd Ethiopia, Llyn Tana, tarddle'r Nile Las sy'n llifo drwy'r Aifft.

Yno mae wedi bod yn tyllu i'r mwd islaw'r dŵr er mwyn casglu cofnod o newid hinsawdd sydd yn ymestyn yn ôl filoedd ar filoedd o flynyddoedd.

Ei nod yw datgelu'r newid fu ar hyd y milenia a cheisio deall beth allai fod wedi gyrru dyn ar grwydr a phryd.

Tan yn ddiweddar y gred oedd bod hyn wedi digwydd o ddeutu 60,000 o flynyddoedd yn ôl.

Ond mae damcaniaeth newydd yn awgrymu adeg dipyn cynharach, hyd at 130,000 o flynyddoedd yn ôl, yn ystod cyfnod cyfnewidiol ac ansefydlog iawn o ran yr hinsawdd.

Ac mae canlyniadau ymchwil yr Athro Lamb yn ategu hynny, a'r dystiolaeth enetaidd a gwaith sydd wedi ei wneud i ddyddio arfau cerrig yn yr ardal.

Hela a chasglu fyddai'n cynnal y bobl hynny, ac felly fe allent fod wedi dilyn yr helfa yn ystod cyfnod o ddigonedd.

Neu gallent fod wedi eu gorfodi i symud i chwilio am ddŵr yn ystod cyfnod o sychdwr difrifol, hanes sydd yn boenus o gyfarwydd i lawer iawn o bobl Affrica heddiw.

Dyma'r cwestiynau y mae'r Athro Lamb a'i gyd-ymchwilwyr yn ceisio atebion iddynt.

Os am wybod mwy am Proff yn y Pyb, cysylltwch ag Arthur Dafis ArthurDafis@googlemail.com / 07841979452



Noson fawreddog i gloi tymor 2016/17
Sesiwn Nos Wener gyda

Cowbois Rhos Botwnnog

Nos Wener 16 Mehefin, yBlac, Tal-y-bont

Pris mynediad yn £8

Noson i ddechrau am 8

Tocynnau ar gael oddi wrth Arthur Dafis
ArthurDafis@googlemail.com / 07841979452

Cofiwch ddilyn Sesiwn Nos Wener ar Twitter @SesiwnNosWener
ac ar Facebook 'Sesiwn Nos Wener Tal-y-bont'
Noddir gan Noson Allan

CFfi Tal-y-bont a'r Cylch



Dafydd Llewelyn, Steffan Nutting, Gareth Lewis, Griff Lewis, Teleri Morgan, Glesni Morgan, Dafydd Lewis, Haf Evans, Gareth Jenkins, Rhydian Evans

Bu mis Mawrth ac Ebrill llawer tawelach ar ôl bwrllwm 'Cynulleidfya gyda 2' ond doedd y llwyddiant ddim am stopio! Ym mis Mawrth cynhaliwyd dawns Dewis Swyddogion y Sir yng Ngwesty Llanina, ac erbyn hyn mae cyfle gyda'r bechgyn i ymgeisio am rôl Dirprwy i Frenhines y Sir. Cafodd Steffan Rhys Nutting ei enwi fel y dirprwy cyntaf gwrywaidd erioed ac fe fydd e'n dechrau gyda'i gyfrifoldebau ar ddiwrnod y Rali yn Nhregaron ar y 3ydd o Fehefin.

Ym mis Ionawr cafodd un o aelodau mwyaf newydd y clwb, Gwen Down, ei dewis i gynrychioli'r sir yn nhim Darllen Cyhoeddus Cymraeg dan 14. Aeth Gwen a'i hyfforddwraig Rhian Evans, Glanrafon, i Lanelwedd i gystadlu ar faes y sioe. Llwyddodd tîm Ceredigion ddod yn drydydd drwy Gymru a Gwen hefyd yn ennill y drydedd wobwr am y darlennydd gorau. Llongyfarchiadau mawr i ti Gwen – llwyddiant yn dy flwyddyn gyntaf gyda'r clwb!

Aeth tîm i ganolfan hamdden Aberaeron ym mis Ebrill i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau yng Ngala Nofio y Sir. O'r broga i'r pili pala, o'r ras bêl i'r ras fflôt roedd llawer o hwyl i'w gael yn y pwll. Llwyddodd Cari Davies i gael dwy wobwr gyntaf, am y dull rhydd a'r broga. Da iawn ti Cari – *clean sweep* ar y nofio!

Efallai eich bod wedi clywed am Gwrs y Cardis, uchafbwynt blwyddyn i ddathlu pen-blwydd CFfi Ceredigion yn 75 mlwydd oed, sef taith feicio 75 milltir nodedig o gwmpas Ceredigion gyda phawb yn cyrraedd Aberaeron gyda'i gilydd. Buodd dros 150 o aelodau a chyn-aelodau, gan gynnwys 18 o Dal-y-bont, ynghlwm â'r digwyddiad unigryw yma. Llongyfarchiadau i'r rhai a fuodd yn seiclo a llongyfarchiadau enfawr i'r Sir ar ei dathliad – pa fudiad arall byddai'n gallu cael cant a hanner o bobl i seiclo cyfanswm o 75 milltir ar yr un pryd?!

Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Croesawyd ein gwraig wadd, Dr Ffion Jones, Llety Llwyd, Tal-y-bont i'r gangen gan Ann Jenkins a oedd hefyd wedi trefnu'r noson. Disgrifiodd Ffion ei hun fel artist, academydd, ffermwraig a darlithydd ac ar hyn o bryd mae'n gweithio fel darlithydd yn adran Ffilm a Theatr Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Cafodd ei magu ar fferm Cwm Rhaeadr ac roedd yn amlwg yn ystod y noson fod ei chefnid a'i magwraeth wedi dylanwadu'n gryf arni ac wedi ei hysbrydoli wrth iddi ymchwilio ac ysgrifennu ei thraethawd ar gyfer ei Doethuriaeth.

Roedd wedi defnyddio dyddiaduron bywyd ar fferm y teulu fel sail i'w gwaith astudio.

Cynlluniodd daith gerdded gyda gwaith celf ar hyd y llwybr yn dangos gweithgareddau ei thad ar y fferm wedi eu gosod mewn mannau pwrpasol.

Roedd y gwaith celf, sef ffotograffau, yn deillio o'i gwaith maes.

Yr ail ddarn o waith a greodd oedd ffilm fer yn edrych ar nodweddion a dylanwad dyn yn y gorffennol.

Yr ffilm nesaf a greodd oedd un yn dangos perthynas ffermwr gyda'i braidd o ddefaid Cymreig

Yn y ffilm olaf 'Edafedd Dŵr', roedd wedi ymchwilio i gysylltiad pobl ag afonydd Tal-y-bont a bu'n cyfweild ffermwyr lleol. Y mae'r gwaith yma yn dal i gael ei ddatblygu a gobeithia Ffion ei ddangos yn gyflawn rhywbryd yn y dyfodol.

Cafwyd noson hynod o ddiffr a diddorol. Mwynhawyd paned wedi ei baratoi gan Aileen a Betty i gloi'r noson.

Ar benwythnos Gŵyl y Banc, teithiodd rhai o'r aelodau i Aberdaron i ymuno â chriw o Ferched y Wawr lleol ar deithiau cerdded. Roedd swper arbennig wedi ei baratoi ar y nos Sadwrn a threuliwyd noson yno hefyd yn eu cwmni.

Diolch i Medi am y trefniadau.



Teyrnged

Bob Southgate

Collodd pentref Tal-y-bont un o'i gwir gymeriadau pan fu farw Bob Southgate, 93 Maes-y-deri, ar 4 Ebrill, yn 82 mlwydd oed.

Un o feibion Llanyddyfri oedd Bob. Ganed ef ar 21 Mawrth 1935, yn un o wyth o blant i Robert Watkin a Jennie Southgate. Roedd yn athletwr da yn ei ieuenctid, ac ymfalchiai mai ef oedd pencampwr sbrintio'r sir pan oedd yn ddisgybl ysgol yn Llanyddyfri.

Yn ystod ei gyfnod o Wasanaeth Cenedlaethol, bu'n teithio tipyn, ac ym Malta cyfarfu â Lily a'i phriodi yn 1955. Setlodd y ddau yng Ngheredigion gan ddod i fyw i Dal-y-bont yn 1967. Erbyn hynny roedd iddynt bump o blant: Anthony, Jennifer, Steve, Ken a John.

Gweithiodd Bob mewn sawl maes, gan gynnwys fel saer coed a gyrrwr lori. Yn ystod ei oriau hamdden, roedd yn hoff iawn o hela, gan ddod yn adnabyddus yn y gymuned amaethyddol leol am ei gampau gyda'i wn a'i gŵn. Yn ŵr golygus a ffraeth, roedd yn gymdeithaswr naturiol ac yn llawn hwylydd wedi iddo yfed ambell i beint!

Dioddefodd sawl ergyd dros y blynyddoedd, yn arbennig pan golodd ei wraig yn 1997, a'i fab, Steve, yn 2004. Ond roedd ei deulu a'i gymdogion yn gefn iddo drwy'r cyfnodau anodd hyn ac yn ystod ei salwch diweddar. Cydymdeimlwn â hwy i gyd yn eu colled.



O Ben-bre i Bencader - ac yna i Bont-goch: hanes rhyfeddol sied Gerddigleision!

Mae pob dyn yn hoff o'i sied fel man i ddianc, ond mae'n anodd rhagori ar y sied anferth sydd yng ngardd *Gerddigleision*, Bont-goch. Ac mae iddi hanes diddorol.

Fe'i prynwyd gan deulu Smith a ddaeth i *Gerddigleision* i fyw yn 1987. Roeddent angen sied fawr ar gyfer eu busnes gwerthu blodau, a phan ddaeth cyfle ymhen blwyddyn i brynu hen neuadd bentref o Sir Gaerfyrddin, manteisiwyd ar hynny, gan dalu £500 amdani. Fel rhan o'r fargen, roedd gan y neuadd lawr pren *parquet* hyfryd a ddaeth o ysgol yng Ngorseionon. Yn anffodus, roedd dŵr a fandaliaeth wedi difrodi rhan helaeth o'r llawr, ond llwyddwyd i adfer darn ohono a'i ddefnyddio i orchuddio llawr lolfâ *Gerddigleision*. Mae'n dal yno ac yn edrych yn hyfryd yng nghartref y perchennog presennol, Mrs Delcy Owen.

O Bencader y daeth yr adeilad a weithredodd fel neuadd gymunedol i'r ardal ers canol y 1960au. Bu Ryan & Ronnie a Hogiau'r Wyddfa yn cynnal nosweithiau llawen yno, a bu'n orlawn ar gyfer sawl cyfarfod tanllyd gwleidyddol yn ystod cyfnod cyffrous y 1960au. Ond adeilad ail-law oedd hwn, ac mae cefndir milwrol iddo. Talwyd swm o £200 amdano gan y pentrefwyr i'r perchnogion gwreiddiol, sef gorsaf a maes awyr RAF Pen-bre, wrth iddynt waredu nifer fawr o adeiladau hynaf y safle yn 1962. Ymdengys mai adeilad i wersylla bechgyn yr RAF oedd hwn, yn hytrach na *hangar* i gartrefu awyren. Cludwyd yr adeilad yn rhad ac am ddim gan gwmni loriau lleol o Ben-bre i Bencader – siwrne o 30 milltir, a chymerodd ddwy flynedd o lafur cariad i'w ail-godi yn ei safle newydd.

Ar ôl i'r neuadd gael ei datgymalu a'i symud i'w chartref newydd yng ngogledd Ceredigion, sicrhawyd cymhorthdal o'r Loteri Chwaraeon gan bwyllgor lleol ym Mhencader i godi adeilad newydd pwrpasol yn ei le ar gost o £110,000. Agorwyd y *Pafiliwn*, fel y'i gelwir, yn 1998, ac mae modd ei weld o'r ffordd fawr wrth basio drwy waelod pentref Pencader.

Deallaf fod Eglwys Babyddol y Santes Fair yng Nghaerfyrddin wedi prynu adeilad tebyg o Ben-bre tua'r un adeg, er mwyn ei ddefnyddio fel clwb ieuenctid. Bu hwnnw mewn defnydd o 1963 hyd at 1988, cyn ei ddisodli gan neuadd bwrpasol newydd a agorwyd yn 1994.

Ond ar waethaf yr hyn a ddigwyddodd ym Mhencader a Chaerfyrddin, mae sied *Gerddigleision* yn dal i fynd ac yn edrych yn dda.

Richard E. Huws

Y Sialens Geltaidd

Eleni eto bu Jenny Fothergill, Mick Fothergill a Dai Dowsett yn cystadlu yn y 'Sialens Geltaidd', y ras rwyfo dros y Môr Celtaidd o Arklow i Aberystwyth. Cynhelir y gystadleuaeth boblogaidd hon bob dwy flynedd. Y tro hwn, yn anffodus, bu'n rhaid i'w tîm, 'Feteraniaid Cymysg Aberystwyth', roi'r gorau iddi chwe milltir yn unig y tu allan i harbwr Aberystwyth oherwydd dirywiad difrifol yn y tywydd. Dim ond pedwar o'r tri thîm ar ddeg lwyddodd i orffen yn ras, gyda Dynion Aberystwyth yn gorffen yn yr ail safle.

Sylw Dai oedd: "Roedden ni o flaen y cychod eraill drwy'r prynhawn a rhan o'r noswaith ond, gyda'r gwynt yn cryfhau a'r tonnau'n codi'n uwch, roedden ni'n arafu. Erbyn tua un-ar-ddeg y bore, roedd yn rhaid i ni roi'r gorau i'r ymdrech; roedd ein cwch cefnogaeth yn rhy fawr i fynd mewn i harbwr Aberystwyth ar lanw isel – a gyda'r llanw'n cwmpo roedd amser wedi'n gorchfygu... Ymgais ddewr gan dîm ffantastig ond y tro hwn, dim cweit yn ddigon."

Yn hebrwng y tîm oedd Ben, mab Mick a Jenny, a'i wraig Rachel Bott, a fu'n rhedeg y RIB - y cwch bach oedd yn cludo'r rhwyfwr rhwng y cwch rhwyfo a'r cwch cefnogaeth. Hoffai'r tîm ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith diflino.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doli, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS IN PEOPLE | BUSINESS COUNCIL

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



Ynyr ar y bocs

Yr oedd yn ddiddorol iawn i weld Ynyr Siencyn, Tanyralt, ar raglen Gwdihw ar S4C, yn ddiweddar, yn dangos ffordd oedd ef wedi dysgu ei gi, Toss, ac yn siarad mewn Cymraeg mor raenus. Da iawn ti, Ynyr.



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk



Sioe Ffasiwn

Doedd Milan, Efrog Newydd na Pharis yn dod yn agos ati. Neuadd Goffa Tal-y-bont oedd y lle i fod nos Iau 27 Ebrill ar gyfer Sioe Ffasiwn i godi arian at y Cylch Meithrin.

Daeth torf sylweddol iawn ynghyd i weld dillad merched o siopau Polly's a dillad dynion o siop Olly's - ac i fwynhau gweld wynebaw o'r ardal yn eu modelu ar hyd y catwalk.

Roedd gwydraid a chacen wrth gyrraedd, a stondinau'n gwerthu eitemau hynod atyniadol o Dots, Siop y Pethe, Ruth Packham, a Me&I.

Elen Pencwm a Geraint Jenkins, Cerrig Caranau oedd compères hynaws a hwyliog y noson. Cafwyd sylwebaeth ddifrifol (am y dillad) a dychanol (am ambell un o'r modelau!) ganddynt, a llawer fawr iawn o hwyl a chwerthin.

Roedd Polly Leonard a'i staff wedi dewis dillad trawiadol o nifer o gwmnïau gwahanol - oll yn gwmnïau bach a/neu deuluol â phwyslais ar ddeunyddiau ac amodau gwaith egwyddorol. Ac roeddynt wedi gwneud job wych o ddewis dillad ar gyfer bob un o'r modelau unigol - y dillad yn siwtio bob un yn rhyfeddol.

Roedd y noson yn un llwyddiannus o safbwynt y Cylch Meithrin, ac yn debygol o fod yn llwyddiannus i siopau Polly's ac Olly's yn ogystal, gyda sawl un â chwant trip bach i'r siopau erbyn diwedd y noson.

Diolchwyd yn fawr iawn i bawb oedd wedi bod yn rhan o'r sioe, ac yn arbennig iawn i Medi James, Llannerch, Tal-y-bont gynt oedd wedi ysbrydoli'r noson ac wedi rhoi o'i hamser a'i harbenigedd i'w threfnu.

Mae pawb yn y Cylch Meithrin yn dymuno'n dda iawn i Anti Ceri (Ceri Morgan) sydd newydd gychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Edrychwn ymlaen at glywed newyddion pellach pan ddaw'r amser - ond yn y cyfamsr, paid â cholli cysylltiad!

argraffu da am bris da



yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Diwedd glo Cyffrous



Tal-y-bont yn dathlu ennill Cwpan y Cynghrair

Roedd yn achos o déjà vu i dîm cyntaf Tal-y-bont wrth i'r tymor pêl-droed ddirwyn i ben. Wedi cyrraedd ffeinal dwy gystadleuaeth roedd yn rhaid wynebu Bont ddwywaith mewn wythnos ar Faes Coedlan y Parc. Yn anffodus collwyd y ffeinal cyntaf ar gyfer Cwpan Len a Julia Newman ar 3 Mai. Doedd fawr ddim rhwng y ddau dîm ond llwyddodd Bont i sgorio tair yn erbyn y ddwy gôl a rwydwyd gan Robbie Southgate a Dylan Hughes.

Yn union wythnos yn ddiweddarach, mewn gêm gyffrous arall, Tal-y-bont aeth â hi, ond fel yn gêm wythnos ynghynt, cael a chael oedd hi hyd y diwedd.

Aeth Bont ar y blaen yn gynnar yn y gêm ond tarodd Tal-y-bont yn ôl gyda goliau da gan Jamie Morgan a Robbie Southgate. Yna, yn haeddiannol, danfonwyd un o chwaraewyr Bont oddi ar y cae am dactyl beryglus ac ychwanegodd Niall Coleridge gôl arall i Dal-y-bont. Yn yr ail hanner, rhwydodd Jamie Morgan unwaith eto ond yna fe darodd

Bont yn ôl gyda dwy gôl i wneud y sgôr yn 4-3. Serch hynny llwyddodd Tal-y-bont i beidio ag ildio eto a mawr oedd y dathlu ar y diwedd.

Braf hefyd yw adrodd i Eilyddion Tal-y-bont, drwy ryfedd wyrth, lwyddo i ennill pencampwriaeth yr Ail Adran ar noson olaf y tymor i'r tîm. Tra oedd Tal-y-bont yn ennill 3-1 yn Llanilar, draw yn Nolgellau roedd y tîm cartref yn chwarae gêm gyfartal, 2-2, yn erbyn Trydydd Tîm y Coleg. Petai un o'r ddau wedi ennill, yna byddai gobeithion Tal-y-bont yn deilchion. Llongyfarchiadau i'r Eilyddion. Gobeithiwn gynnwys llun o'r tîm gyda tharian yr Ail Adran yn y rhifyn nesaf.



Barry Southgate â'i lygaidd ar y bêl



Merched Tal-y-bont dan 14

Dyma dîm pêl-droed merched Tal-y-bont dan 14 sy'n chwarae yng Nghynghrair Ieuencid Aberystwyth (adran y bechgyn). Cafodd y tîm ganlyniadau eithaf boddhaol drwy'r tymor. Mae rhan fwyaf o'r merched yn chwarae i dîm Canolbarth Cymru - safon uchel iawn.

Mae 'na le i ddiolch i'r rheolwr Andy Roberts, Bow Street ac i Nikki Myring-Thomas, Tal-y-bont am eu gwaith caled yn ystod y tymor. Diolch hefyd i Owen Thomas o 'Thomas Bros, Rhydyppennau Garage' am noddi y crysau chwys newydd.

Gŵyl Pêl-droed Talybont

Maes Chwarae, Cae'r Odyn Galch, Talybont a'r Cylch



Raffl £1 yr un **Gwobrau** | £100 | £50 | £25
Bydd bwyd ar gael ar y maes

Dan 7 | Dan 9 | Dan 11 | Dan 12 | Dan 14 | Dan 16 **Dechrau 10am**

Oedolion **£2**

17/6/17

18/6/17

